# Datganiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

| | |
|---|---|
| **Teitl** | Datganiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Diwrnod Byd-eang y Plant |
| **Dyddiad** | 20 Tachwedd 2018 |
| **Gan** | Lynne Neagle AC – Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg |

Diolch Lywydd. Rwy'n falch iawn o allu gwneud y datganiad hwn heddiw ar ran y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i gydnabod pwysigrwydd Diwrnod Byd-eang y Plant y Cenhedloedd Unedig.

Sefydlwyd Diwrnod Byd-eang y Plant y Cenhedloedd Unedig yn 1954 ac fe'i dethlir ar 20 Tachwedd bob blwyddyn "i hyrwyddo cydberthynas ryngwladol, ymwybyddiaeth ymysg plant ledled y byd, a gwella lles plant".

Ers ei sefydlu, mae 20 Tachwedd wedi dod yn ddyddiad pwysig mewn perthynas â chynnydd hawliau plant ledled y byd. Ar 20 Tachwedd 1959, mabwysiadodd Cynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig Ddatganiad Hawliau'r Plentyn. Dyma'r dyddiad ym 1989 hefyd pan fabwysiadodd Cynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig y Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn.

Felly ers 1990, mae Diwrnod Byd-eang y Plant wedi'i ddefnyddio i ddathlu pen-blwydd mabwysiadu'r datganiad a'r confensiwn ar hawliau plant. Yn bwysicach fyth, mae'n ddiwrnod lle mae plant ledled y byd yn cael eu hanrhydeddu a chymerir amser i fyfyrio ar y cynnydd sydd wedi'i wneud o ran hyrwyddo eu hawliau.

Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru stori wych i'w hadrodd am ei waith craffu ar hawliau plant. Yn 2011, Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i wneud y Confensiwn yn rhan o'i gyfraith ddomestig pan basiodd y *Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru)*.

Nod y Mesur oedd cryfhau ac adeiladu ar y dull yr oedd Llywodraeth Cymru'n ei gymryd o ran pennu polisi ar gyfer plant a phobl ifanc. Rhoddodd ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y

Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, ac roedd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion gyhoeddi Cynllun Hawliau Plant yn nodi'r trefniadau sydd ar waith i gael y sylw dyledus hwnnw.

Rhaid i'r dyletswyddau hyn fod yn gonglfaen i'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn creu ei pholisïau ar gyfer plant. Mae camau gweithredu Llywodraeth Cymru o dan y ddyletswydd hon yn rhywbeth y mae'r Pwyllgor hwn wedi ei fonitro a'i archwilio'n barhaus a bydd yn parhau i wneud hynny i sicrhau bod ein plant a'n pobl ifanc yn ddiogel, yn iach, yn hapus a bod eu hawliau cyfreithiol yn cael eu parchu.

Mae gwaith y Pwyllgor wedi cael effaith sylweddol ac mae wedi dylanwadu'n uniongyrchol ar y broses o newid a gwella'r modd y darperir gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc mewn llawer o feysydd. Rwyf wrth fy modd â'r cynnydd yr ydym wedi'i wneud o ran craffu ar feysydd polisi a deddfwriaeth allweddol yn ystod hanner cyntaf y Cynulliad hwn.

Ar ddechrau'r Pumed Cynulliad, fe wnaethom bennu egwyddorion ac uchelgeisiau clir ar gyfer ein gwaith. Un o'r egwyddorion hynny oedd y dylai ymgysylltu â phlant a phobl ifanc fod yn sail i'r holl waith yr ydym yn ei wneud - gan sicrhau bod eu barn a'u profiadau'n cael eu nodi mewn modd defnyddiol, sensitif ac adeiladol.

Rydym bellach 'hanner ffordd' drwy'r Pumed Cynulliad, ac mae hwn yn gyfle perffaith imi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y gwaith y mae'r Pwyllgor wedi'i wneud ar faterion plant - a sut yr ydym wedi ymgysylltu â phlant a phobl ifanc ar hyd y ffordd .

Yn anffodus, ni fyddaf yn gallu cwmpasu'r holl feysydd yr ydym wedi gweithio arnynt yn ystod y datganiad hwn. Yn lle hynny, byddaf yn canolbwyntio ar y meysydd hynny lle rwy'n credu ein bod wedi cael yr effaith fwyaf ac wedi cael yr ymgysylltiad mwyaf â phlant.

Yn ein hymchwiliad ciplun i Wasanaethau Ieuenctid yng Nghymru, rhoddodd dros 1500 o bobl ifanc eu barn inni. Roedd yr adborth gan y bobl ifanc yn hynod glir - pan mae darpariaeth gwaith ieuenctid yn diflannu o fywyd person ifanc, mae'r effaith yn sylweddol. Roedd hyn yn rhan hanfodol o'n canfyddiadau a'n hargymhellion.

Rydym yn falch o nodi ffocws newydd Llywodraeth Cymru ar y gwasanaethau hyn ac yn dilyn ein hadroddiad mae'r cyfeiriad yn ymddangos yn addawol gyda phenodiad Bwrdd Gwaith Ieuenctid Interim yn ddiweddar.

Er gwaethaf nifer o adroddiadau blaenorol proffil uchel mewn perthynas â gwasanaethau eirioli, roedd y Pwyllgor yn dal i bryderu nad oedd y plant mwyaf agored i niwed yng Nghymru yn cael cefnogaeth i fynegi eu barn o hyd am faterion a oedd yn effeithio arnynt. Roedd hyn er gwaethaf y ffaith bod yr angen am eiriolaeth annibynnol yn argymhelliad allweddol yn Adroddiad Waterhouse, a gyhoeddwyd yn 2000.
Mae pwysigrwydd sicrhau bod gan blant sy'n agored i niwed eiriolwr annibynnol yn rhywbeth ni ellir ei danbrisio. Felly, ym mis Hydref 2016, cynhaliodd y Pwyllgor ymchwiliad byr a oedd yn canolbwyntio ar ddarpariaeth eirioli statudol yng Nghymru.

Rydym yn falch bod cynnydd wedi'i wneud ers ein hadroddiad ac mae gwaith craffu'r Pwyllgor yn cael clod helaeth o ran sicrhau bod y Model Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth wedi cael ei weithredu'n llawn a'i ariannu ledled Cymru.

Fel rhan o'n gwaith craffu ar y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol, cynhaliwyd cyfres o weithdai gyda phobl ifanc, a chynhaliwyd cynhadledd i'r rhai sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant ag ADY i helpu i gasglu barn ar sut y mae'r Bil yn effeithio arnynt. Roedd yr ymgysylltiad hwn yn rhan hanfodol o'n gwaith craffu, ac yn rhoi mewnwelediad clir i anghenion y plant hynny a sut y gellid defnyddio'r Bil i wella'r gwasanaethau y maent yn eu cael.

Un ffordd bwysig y gwnaeth y Pwyllgor wella'r Bil oedd cynnwys dyletswydd ar awdurdodau lleol a chyrff y GIG i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, a ddaeth o ganlyniad i'n sylwadau ni a'r Comisiynydd Plant .

Ystyrir Dechrau'n Deg fel un o raglenni blynyddoedd cynnar mwyaf blaenllaw Llywodraeth Cymru - sy'n anelu at helpu i fynd i'r afael â thlodi plant. Dewiswyd cynnal ymchwiliad a oedd yn canolbwyntio ar elfennau allgymorth Dechrau'n Deg oherwydd bod ymatebwyr i'n hymgynghoriad yn 2016 ar "*First One Thousand Days of life's child*" wedi amlygu pryderon ynghylch cyrhaeddiad y rhaglen. Er bod cefnogaeth gyffredinol i nodau Dechrau'n Deg, roedd pryder bod gan elfen dargedu daearyddol y rhaglen y gallu i greu anghydraddoldeb pellach, a hynny drwy eithrio nifer sylweddol o blant sy'n byw mewn tlodi.

Arweiniodd ystyriaeth y Pwyllgor o'r mater hwn at newid cadarnhaol, yn enwedig mewn perthynas ag ymestyn yr arian Allgymorth - sy'n golygu bod gan awdurdodau lleol fwy o hyblygrwydd i ddewis defnyddio eu cyllidebau i ddarparu gwasanaethau Dechrau'n Deg y tu allan i ardaloedd cod post dynodedig.

Gyda dros £600 miliwn wedi'i wario ar Dechrau'n Deg hyd yn hyn, bydd ein Pwyllgor yn parhau i daflu goleuni ar a oes tystiolaeth bod y buddsoddiad hwn yn sicrhau canlyniadau gwell yn y blynyddoedd cynnar.

Mae Iechyd emosiynol ac iechyd meddwl ein plant a'n pobl ifanc o'r pwys mwyaf. Yn ein hadroddiad, Cadernid Meddwl, fe wnaethom alw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno newid sylweddol yn y gefnogaeth sydd ar gael. Casglwyd tystiolaeth helaeth a daethom i'r casgliad bod yr her frys bellach yn gorwedd ar flaen y llwybr gofal, a bod angen llawer mwy o gefnogaeth ar gyfer lles emosiynol, gwytnwch ac ymyrraeth gynnar. Bydd methiant i gyflawni ar yr ochr hon i'r llwybr yn achosi i'r galw am wasanaethau arbenigol fod yn fwy na'r hyn y gellir ei gyflenwi, a bydd yn gadael cyfran sylweddol o blant - yr hyn a elwir yn "*missing middle*" - heb y cymorth sydd ei angen arnynt.

Mae ein siom yn ymateb gwreiddiol Llywodraeth Cymru i'n hadroddiad wedi'i ddogfennu'n dda. Croesawaf y ffaith bod Ysgrifenyddion y Cabinet wedi myfyrio dros yr haf ac wedi sefydlu'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen a gyfarfu am y tro cyntaf yn ddiweddar i ystyried ffordd ymlaen. Fel Pwyllgor, ni fyddwn yn llaesu dwylo gyda hyn, ac rydym wedi gofyn am ymateb ysgrifenedig diwygiedig i'n hargymhellion erbyn mis Mawrth y flwyddyn nesaf. Byddwn yn cadw llygad barcud ar gamau gweithredu'r Llywodraeth yn y maes hwn.

Roedd pryder am ddiffyg gwerslyfrau addas ac adnoddau addysgol eraill yn fater y tynnodd pobl ar draws y sector addysg sylw'r Pwyllgor ato. Yn bwysicach fyth, mae hwn yn bryder a godwyd gan y disgyblion eu hunain.

Mae darparu adnoddau priodol i'n dysgwyr, yn enwedig yn ystod addysg TGAU a Safon Uwch, yn angen sylfaenol. Felly, ymgymerodd y Pwyllgor â gwaith i benderfynu ar yr hyn y gellid ei wneud i wella hyn. Er mwyn helpu i ddeall y problemau a gafwyd, cawsom dystiolaeth yn uniongyrchol gan nifer o blant, trwy gyfres o flogiau fideo. Fe wnaeth clywed yn uniongyrchol gan y plant ein helpu i ddeall natur y problemau sy'n eu hwynebu a maint y broblem.

Er nad yw'n rhan o waith y Pwyllgor hwn, ar Ddiwrnod Byd-eang y Plant, byddai'n ddiofal imi beidio â sôn am Senedd Ieuenctid Cymru. Rwy'n ddiolchgar i'r Llywydd ac i Dîm Prosiect y Senedd Ieuenctid am roi gwybod imi am y cynnydd.

Mae sefydlu Senedd Ieuenctid Cymru yn amser gwirioneddol gyffrous yn hanes y Cynulliad. Mae'n wir gydnabyddiaeth o werth plant a phobl ifanc yn ein democratiaeth, a dylai greu cysylltiadau ystyrlon a pharhaol rhwng ysgolion, pobl ifanc a'r Cynulliad.

Mae ethol Aelodau cyntaf Senedd Ieuenctid Cymru ar y gweill, gyda'r pleidleisiau'n cau ddiwedd yr wythnos hon. Rwyf am gynnig cefnogaeth lawn ein Pwyllgor i'r Senedd Ieuenctid, a'i Haelodau, ac edrychaf ymlaen i'r Pwyllgor gydweithio gyda'r Senedd lle bynnag y bo modd.

Mae nifer o feysydd eraill o waith y Pwyllgor sydd wedi cael effaith ar blant y gallwn siarad amdanynt. Rydym wedi gwneud llawer, ac rydym wedi ymrwymo i gwblhau ein holl ymchwiliadau. Enghraifft gyfredol o hyn yw'r gwaith dilynol yr ydym yn ei wneud ar hyn o bryd ar ein hymchwiliad i Iechyd Meddwl Amenedigol. Mae'r gwaith dilynol hwn yn hanfodol.

Gan edrych ymlaen, mae gennym faich gwaith eithaf trwm, gydag ymchwiliadau cyfredol ar effaith Brexit ar Addysg Uwch ac Addysg Bellach a statws Bagloriaeth Cymru, yn ogystal â chraffu ar y Bil Cyllido Gofal Plant a'r ddeddfwriaeth arall sydd ar y gweill.

Fel yr wyf wedi amlinellu, bydd y Pwyllgor yn parhau â'i waith mewn perthynas â Chadernid Meddwl. Rydym hefyd wedi ymrwymo i ymgymryd ag ymchwiliadau i gyllido ysgolion a gordewdra ymhlith plant.

Heddiw, cyhoeddodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ei adroddiad ar Blant a Phobl Ifanc sydd wedi bod mewn Gofal. Mae'n bryder bod yr adroddiad yn canfod bod plant mewn gofal ledled Cymru yn cael eu siomi oherwydd nad yw sefydliadau'n cydnabod eu 'cyfrifoldebau rhianta corfforaethol'. Fel rhan o'n rhaglen waith, byddwn yn edrych yn fanwl ar yr adroddiad hwn, ac ymateb y Llywodraeth.

Yn olaf, byddwn yn gwneud gwaith i ystyried y ffordd y mae'r Mesur Hawliau Plant wedi gweithredu'n ymarferol, a sut y gellid gwella'r ddeddfwriaeth honno ymhellach i roi hawliau plant yng Nghymru ar sail hyd yn oed yn gadarnach. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau nad geiriau ar dudalen yn unig yw hawliau plant - rydym am fod yn glir eu bod yn cael eu hystyried, eu parchu a'u cynnal ar draws holl weithgareddau'r llywodraeth.

Wrth gloi fy natganiad heddiw, Lywydd, hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at ein gwaith yn ystod y Pumed Cynulliad hwn. Yn arbennig, hoffwn ddiolch i'r plant a'r bobl ifanc y mae eu cyfraniadau wedi chwarae rhan mor fawr o ran helpu i lunio polisi a deddfwriaeth yng Nghymru.

Diolch.

**I'w wirio yn erbyn yr hyn a ddywedwyd**

**Embargo tan ar ôl i Lynne Neagle AC – *Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg* wneud y datganiad.**